

No.

CABINET

Cofnodion hybrid cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd I. Buckley a Dr. I.J. Johnson.

C238 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

C239 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2024 fel cofnod cywir.

C240 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C241 CRYFHAU EIN CYMUNEDAU A’N GWAITH I DRECHU TLODI A’R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 a’i ystyried fel isod gyda'r cyfeirnod o gyfarfod Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024.

C242 CRYFHAU EIN CYMUNEDAU A’N GWAITH I DRECHU TLODI A’R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 ac o gyfarfod Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024, a’u hystyried gyda’i gilydd.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried materion fel cyfeirio at ffynonellau cymorth, y fenter Mannau Cynnes, rolau Cyngor ar Bopeth a Cyswllt Un Fro a'r gwaith a wnaed gan Ysgolion Bro yn y Fro wledig.

Dywedodd yr Arweinydd fod Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol wedi ystyried materion fel sut yr oedd y Trydydd Sector yn gweithio’n agos gyda Chyngor Bro Morgannwg, yn enwedig y gwaith a wnaed gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) yn CF61 a Chanolfan Sant Paul ym Mhenarth. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r angen i edrych ar y gyrwyr ar gyfer yr argyfwng costau byw y mae'r Cyngor yn ei fonitro.

Wedi ystyried y cyfeiriadau,

PENDERFYNWYD – BOD y trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 ac yng nghyfarfod Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 yn cael eu nodi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfodydd.

C243 STRATEGAETH GOED CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod y Pwyllgor wedi croesawu'r Strategaeth a diolchodd i'r Swyddogion am y gwaith a wnaed i gwblhau'r Strategaeth. Awgrymwyd bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a oedd yn awgrym dilys. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r her o roi gwybod i'r cyhoedd pan gafodd coed eu tynnu a pham yr oedd hynny wedi digwydd, e.e. clefyd coed ynn neu goed heintiedig. Roedd y broses yn dal yn fyw

No.

ac yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus tan ganol mis Ebrill 2024 ac anogodd y Cynghorydd Wilson bartïon â diddordeb i ymateb.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024 yn cael ei nodi.

(2) GALLAI Cynghorau Tref a Chymuned gymryd rhan yn y broses ymgynghori a oedd yn agored tan ganol mis Ebrill 2024 ynghylch cynnal a chadw a phlannu coed.

Y rheswm dros y penderfyniad

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C244 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024 a'u hystyried fel isod gyda'r cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024.

C245 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024 ac o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024, a'u hystyried gyda'i gilydd.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgorau wedi ystyried cysylltiadau o'r adroddiad i gamau gweithredu pendant. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch Prosiect Sero fel prif flaenoriaeth i'r Cyngor a dyraniad pellach o gyllid y dywedodd yr Arweinydd y byddai'n rhaid iddo fod yn destun trafod i'r Cyngor ynghylch blaenoriaethau yn ystod y trafodaethau pellach ar y gyllideb. Ystyriwyd bod y prosiect Adfer y Ddawan wedi bod yn llwyddiannus a chafwyd trafodaeth ynghylch rôl Cynghorau Tref a Chymuned wrth gyflawni hynny.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024 ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024 yn cael eu nodi.

No.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei anfon at yr holl Aelodau etholedig, Cyngorau Tref a Chymuned ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt.

Y rheswm dros y penderfyniad

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriadau a'r trafodaethau yn y cyfarfodydd.

C246 FFORWM MYNEDIAD LLEOL BRO MORGANNWG –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023.

Ymhlith yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod roedd gosod pontydd troed newydd a disodli dodrefn diffygiol ym Mro Morgannwg, archwiliad o Lwybr Arfordir Cymru yn ogystal â chyflwyniad gan Experience Community ynghylch Hawliau Tramwy a hygyrchedd toiledau cyhoeddus.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C247 ADOLYGIAD PROTOCOL COD YMDDYGIAD 2024 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer protocol diwygiedig y Cod Ymddygiad Gweithwyr.

Cyfeiriwyd yn benodol at wella cymalau 1.10 a 2.2 fel y disgrifiwyd ym mharagraffau 2.3 a 2.4 yr adroddiad.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD protocol diwygiedig y Cod Ymddygiad Gweithwyr fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad ac yn Atodiad A yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD, yn amodol ar Benderfyniad (1), y cynigion a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo er mwyn i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol sicrhau bod y Cod diwygiedig yn cael ei gyfleu i'r holl staff.

No.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod Protocol Cod Ymddygiad Gweithwyr y Cyngor yn parhau'n gyfredol ac yn cyfeirio at yr holl ddiweddariadau perthnasol i ddeddfwriaeth, polisïau, gweithdrefnau a phrosesau.
- (2) Sicrhau'r Protocol mwyaf cyfredol a pherthnasol y gellid ei ddsbarthu i'r holl staff perthnasol (ac eithrio staff addysgu sydd â pholisi ar wahân). Sicrhau bod staff yn parhau'n ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn unol â chyfansoddiad y Cyngor a Phrotocol y Cod Ymddygiad Gweithwyr.

C248 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2024-25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd galluogi'r Cabinet i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ar gyfer 2024-25 ar ôl ymgynghori.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad hefyd wedi cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024 lle cafwyd trafodaeth fanwl, ond ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol i'w hanfon ymlaen i'r Cabinet i'w hystyried, ond roedd y Pwyllgor wedi nodi'r newidiadau cadarnhaol a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad a sôn am rôl Cyfathrebu.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft wedi'i ddiweddarau (Atodiad A), yr adroddiad adborth ymgynghori (Atodiad B) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad C) yn cael eu nodi.
- (2) BOD y sylwadau yn dilyn trafodaeth ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft diwygiedig gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ar 21 Chwefror 2024 yn cael eu nodi.
- (3) BOD y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft (Atodiad A), yn unol â Phenderfyniad (2), yn cael ei gymeradwyo a bod yr adroddiad a'r Atodiadau'n cael eu cyfeirio at y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2024 i'w hystyried a'u cymeradwyo.
- (4) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn Adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol terfynol gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2024 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Galluogi'r Cabinet i ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun.
- (2) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol wrth ystyried y Cynllun.
- (3) Sicrhau y gellid cyflwyno'r Cynllun Cyflawni Blynyddol i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth i'w ystyried a'i gymeradwyo.
- (4) Galluogi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol i gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2024 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

C249 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG / CYS 2022-2023 (CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL) / CYS (CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG) (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i diben oedd cadarnhau Adroddiad Blynyddol 22-23 y CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) / CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog).

Dywedodd y Cynghorydd Williams, Cadeirydd y CYSAG/CYS, fod yr adroddiad yn seiliedig ar ddeddfwriaeth lle bu newidiadau sylweddol i'w hystyried a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad. Byddai agwedd feirniadol a chwestiynol fel rhan o'r maes llafur 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Roedd Estyn wedi arolygu wyth Ysgol Gynradd ac un Ysgol Uwchradd gyda sylwadau cadarnhaol wedi'u cyhoeddi wedi hynny a byddai nifer o adnoddau ar gael i ysgolion eu defnyddio.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y CYSAG/CYS sef Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad yn cael ei nodi i'w gadarnhau a'i gyhoeddi.
- (2) BOD yr adroddiad a'r atodiadau'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant i'w hystyried. Pe na bai'r Pwyllgor Craffu yn gwneud unrhyw sylwadau pellach, yna byddai'r Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y CYSAG/CYS, fel y cytunwyd ac y cadarnhawyd i'w gyhoeddi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod Adroddiad Blynyddol wedi'i gadarnhau ar gyfer y CYSAG/CYS wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cylch Gorchwyl (Cyfansoddiad Diwygiedig y

No.

CYSAG/CYS ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) a'r gofyniad i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith.

(2) Sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael cyfle i ystyried y gweithgareddau a'r cynnydd a wnaed gan y CYSAG/CYS wrth gefnogi addysg ym Mro Morgannwg.

C250 GWELLIANNAU I SAFLEOEDD HAMDDEN COLCOT A BUTTRILLS (HCL) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a oedd yn stori newyddion dda i bêl-droedwyr a bocswyr yn y Barri, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwaith gwella sylweddol i safleoedd hamdden Colcot a Buttrills gyda phwyslais ar wella cyfleusterau hamdden.

Roedd cae hoci safonol rhyngwladol eisoes ar gael ar gaeau Pencoedtre a chaeau 3G ar gyfer pêl-droed yn Ysgol Uwchradd Whitmore. Byddai pêl-droed un ar ddeg bob ochr yn parhau i gael ei chwarae yn y Buttrills, ond byddai pêl-droed mini yn cael ei chwarae ar ochr Colcot ac yn osgoi'r angen i blant ifanc orfod croesi'r ffordd brysur.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn dda gweld y cynigion eang i weithio drwyddynt gydag eraill a gweld yr hyn a oedd yn bosibl, yn ogystal ag amddiffyn plant iau rhag gorfod croesi ffordd brysur.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y cynnig i ddatblygu cyfleusterau newid newydd yng nghaeau chwarae Buttrills yn y Barri fel y nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei gefnogi a bod Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Pennaeth Cyllid, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles yn cael ei awdurdodi i gaffael a dyfarnu contractau i symud gwaith yn ei flaen ar yr amod y caiff yr holl ystyriaethau ariannol a chyfreithiol, a'r gofynion cynllunio eu bodloni.

(2) BOD egwyddor datblygu trac pwmp ar safle Colcot, gyda lleoliad dangosol sydd i'w weld yn Atodiad D yr adroddiad, yn cael ei chefnogi.

(3) BOD, yn unol â Phenderfyniad (1), y cynigion i ddatgan nad oes angen y cyfleusterau newid presennol, y maes parcio presennol na'r cyfleuster cae pob tywydd ar safle Colcot (a nodwyd ar y cynllun yn Atodiad D) ar gyfer gofynion gweithredol yn cael eu cytuno a bod y gwaith o neilltuo'r eiddo hwnnw i'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei hwyluso.

(4) BOD, yn unol â Phenderfyniadau (1) a (2), awdurdod dirprwyedig yn cael ei awdurdodi i Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles, i gyflwyno a derbyn unrhyw geisiadau grant angenrheidiol (er enghraifft i Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru) i gynorthwyo gyda datblygu ystafelloedd newid newydd ar gaeau chwarae Buttrills a thrac pwmp posibl yng nghae hamdden Colcot.

(5) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth i ymgysylltu ac ymgynghori â'r sefydliadau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion, gan gynnwys Cynghrair Pêl-droed Cymdeithas Bro Morgannwg a Chlwb Bocsio Amatur Colcot.

(6) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Rheolwr Gweithredol Eiddo, i roi rhybudd priodol i'r ysgol ddawns a'r feithrinfa sy'n meddiannu'r neuadd ar hyn o bryd yn yr hen ganolfan chwaraeon bresennol y byddai eu meddiannaeth o'r safle yn dod i ben yn ffurfiol ar 31 Hydref 2025.

(7) BOD adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn amlinellu'r cynigion tai posibl ar gyfer y rhan honno o safle Colcot fel y nodwyd yn Atodiad D.

(8) BOD Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, yn cael ei awdurdodi i ddechrau trafodaethau gyda Meysydd Chwarae Cymru, i alluogi'r gwelliannau yn safleoedd hamdden Colcot a Buttrills i symud ymlaen a chael ei awdurdodi fel y bo'n briodol dan awdurdod dirprwyedig i ymrwmo i neu newid unrhyw Weithred Gyflwyno gyda Meysydd Chwarae Cymru.

(9) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth i ddechrau trafodaethau gyda Chynghrair Bêl-droed Cymdeithas Bro Morgannwg a Chlwb Bocsio Amatur Colcot ynghylch trefniadau rheoli ar gyfer y cyfaddilad ystafelloedd newid newydd arfaethedig ar faes hamdden Buttrills, a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ôl i'r trafodaethau hynny ddod i gasgliadau.

(10) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth i gyflwyno cais/ceisiadau cynllunio ar gyfer y prosiectau a nodwyd yn safleoedd hamdden Colcot a Buttrills, yn rhinwedd naill ai Rheoliad 3 neu Reoliad 4 Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (fel y'i diwygiwyd) os oes angen, ac unrhyw geisiadau statudol angenrheidiol eraill i geisio caniatâd yn ôl yr angen.

(11) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl weithdrefnau a dogfennaeth gyfreithiol ofynnol i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r gwaith a'r cynigion yn yr adroddiad.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Uwchraddio'r cyfleusterau newid ar gyfer y caeau pêl-droed sydd wedi'u lleoli ar gae hamdden Buttrills yn sylweddol gan adlewyrchu'r galw cynyddol am gyfleusterau menywod a merched o safon ar yr amod y caiff yr holl ystyriaethau ariannol a chyfreithiol a'r gofynion cynllunio eu bodloni.
- (2) Galluogi darparu trac pwmp newydd ar safle Colcot.
- (3) Galluogi neilltuo safle Colcot i'r Cyfrif Refeniw Tai at ddibenion datblygiad tai newydd posibl, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio ac ymgynghori ehangach.
- (4) Manteisio i'r eithaf ar faint o arian grant allanol sydd ar gael i gefnogi'r cynigion.
- (5) Cynnwys sefydliadau perthnasol a rhoi gwybod i'r un sefydliadau am y cynigion.
- (6) Dod â'r cytundebau presennol i ben yn ffurfiol a chynorthwyo i ddod o hyd i eiddo newydd os oes angen.
- (7) Galluogi ystyried ymhellach y potensial ar gyfer tai ar ran o'r safle a fyddai'n darparu rhywfaint o'r cyllid i'r datblygiadau hamdden symud ymlaen.
- (8) Galluogi cyfathrebu adeiladol gyda Meysydd Chwarae Cymru gyda'r potensial i amddiffyn mannau gwyrdd pellach at ddefnydd hamdden, cael awdurdodiad ac fel y bo'n briodol ymrwymo i neu newid unrhyw Weithred Gyflwyno gyda Meysydd Chwarae Cymru.
- (9) Ceisio'r dull economaidd ac ymarferol angenrheidiol i reoli'r cyfadeilad ystafelloedd newid newydd arfaethedig.
- (10) Cael awdurdod i gyflwyno cais/ceisiadau cynllunio ar gyfer y prosiect a chael unrhyw geisiadau statudol angenrheidiol eraill neu geisio caniatâd statudol yn ôl y gofyn.
- (11) Cael awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd baratoi, gweithredu a chwblhau'r holl ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r prosiect.

**C251 CYNLLUN AMNEWID FFENESTRI A DRYSAU TAI 2024-2027 (DSCCT)
(CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad Rhan I, gyda'r adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar agenda'r cyfarfod, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am y broses dendro ar gyfer Cynllun Amnewid Ffenestri a Drysau Tai 2024-2027.

No.

Dyweddod y Cynghorydd Perkes fod y cynllun yn nodi bod 461 o eiddo yn gofyn am ffenestri a drysau newydd bob blwyddyn, 216 o eiddo yn 2024/25, 180 o eiddo yn 2025/26 a 65 o eiddo yn 2026/27.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, gyda'r bwriad o wneud penderfyniadau ar ddyfarnu'r contract a nodwyd yn yr adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

Rhoi gwybod am y sefyllfa bresennol gyda'r rhaglen benodol hon.

C252 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C253 CYNLLUN AMNEWID FFENESTRI A DRYSAU TAI 2024-2027 (DSCCT) (CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad Rhan II, gyda'r adroddiad Rhan I wedi'i ystyried yn gynharach ar agenda'r cyfarfod, a'i ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer awdurdod dirprwyedig i dderbyn y tendr mwyaf manteisiol a gweithredu'r contract ar gyfer Cynllun Amnewid Ffenestri a Drysau Tai 2024-2027.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i ddyfarnu Cynllun Amnewid Ffenestri a Drysau Tai 2024-2027, Contract Tymor Mesuredig Tribiwnlys Contractau ar y Cyd 3 blynedd, i Nationwide Windows and Doors Ltd.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai'r Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid i gymeradwyo dyfarniad uniongyrchol i dderbyn y tendr mwyaf manteisiol.

No.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi a gweithredu Contract Tymor Mesuredig Tribiwnlys Contractau ar y Cyd 2016 3 blynedd gyda Nationwide Windows and Doors Ltd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractau sydd â gwerth dros £300k gael eu cytuno gan y Cabinet.

(2) Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor, sydd angen cymeradwyaeth y Cabinet gyda gwerth dros £300k i'w gytuno gan y Cabinet gydag awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo dyfarniad uniongyrchol gan gydymffurfio â meini prawf Fframwaith Ffenestri a Drysau'r Cynghrair Caffael Cymreig a dyfarnu i'r tendr mwyaf manteisiol.

(3) Sicrhau bod y ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol ar waith i ymrwymo i'r contract gyda'r contractwr llwyddiannus.